

ADRŌDDIAD EFFAITH BLYNYDDŌL 2021/22



YMDDIRIEDŌLAETH
ARFORDIR PENFRO



Madoc's Haven
Clawr blaen: Marloes

Adroddiad Effaith Blynyddol 2021/22

Ychydig eiriau gan ein Cadeirydd

Braf oedd cael mynd allan a chrwydro unwaith yn rhagor a chael gwerthfawrogi hyfrydwch lu ac amrywiol ein Sir fendigedig. Drwy gydol y cyfnod heriol diweddar, parhawyd i dderbyn cefnogaeth hael ac ewyllys da gan gyfeillion pell ac agos.

Mae'n ymddangos bod pawb sydd â chysylltiad â Sir Benfro yn awyddus i warchod a rhannu ei thrysorau amgylcheddol - a thrwy eu cymorth, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Roedd ein llwyddiant ar y prosiect Creu Mwy o Ddolydd wedi cyffwrdd gymaint o galonnau fel ein bod wedi gallu ymestyn y gwaith. Llwyddwyd i annog nifer fawr o blant i ddysgu a mwynhau yn yr awyr agored drwy ein prosiect Gwreiddiau a'r prosiect Ysgolion Awyr Agored tra bod pobl o bob oed a chefnidir wedi cymryd rhan yn y mentrau Darganfod y Traeth.

Ni fyddai dim o'r gwaith hwn wedi digwydd heb gefnogaeth caredig unigolion a sefydliadau - ac am hynny, hoffwn ddiolch o galon i chi... a'ch annog i'n helpu i wneud hyd yn oed mwy!



Elsa Davies



Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr
<https://ymddiriedolaetharfordirpenfro.cymru/dechrau-sgwrs-gyda-ni/>



Ein gweledigaeth yw cynnal a gwella nodweddion unigryw a nodedig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gofalu am ei iechyd a'i les a diogelu ei rinweddau eithriadol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ein cenhadaeth yw gweithio gyda phartneriaid i warchod, gwella a dathlu'r dirwedd, bywyd gwyllt a diwylliant unigryw Arfordir Penfro a'r cyffiniau, gan ddefnyddio ein hadnoddau er budd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol a'r ardal o gwmpas, yn ogystal â'r rhai sy'n dod i ymweld â'r Parc Cenedlaethol.

Ein tasg yw cynhyrchu cymaint â phosibl o adnoddau i ategu gweithgareddau ein partneriaid heb eu dyblygu. Er mwyn llwyddo i wireddu'r canlyniadau gorau, byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan annog eu cefnogaeth a gweithio gyda hwy mewn modd pwrpasol a threfnus. Byddwn yn gweithio i gyfleu natur a gwerth unigryw'r Parc yn effeithiol; y modd y gellir ei warchod a'i wella; a pha adnoddau sydd eu hangen i ategu ei asedau.

DIOGELU'R PARC CENEDLAETHOL, AR GYFER HEDDIW, YFORY A'R DYFODOL



8

prosiect wedi'u cefnogi



£109,804

o incwm wedi'i godi



132

hectar o ddolydd wedi'u cefnogi



34

o safleoedd wedi'u gwella ar gyfer byd natur ar draws y Parc Cenedlaethol



32

o ysgolion wedi'u cefnogi



12

grŵp cymunedol wedi cyflawni Prosiectau Natur



6000

o goed wedi'u plannu ar 9 safle

Enw'r Prosiect: **Y 1,000 Diwrnod Cyntaf**

Crynodeb o'r Prosiect

Mae'r 1,000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn yn chwarae rhan holl bwysig a hirdymor mewn naddu ei ddyfodol. Nod y prosiect hwn oedd cyflwyno rhaglen o weithgareddau chwarae yn yr awyr agored ar gyfer plant cyn oed ysgol, a datblygwyd y prosiect i gefnogi rhieni a gofalwyr plant cyn oed ysgol gael cyfle i fanteisio ar fyd natur a'r awyr agored.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Yn ystod chwe mis cyntaf y prosiect, mynychwyd 8 lleoliad gofal plant gyda 22 o oedolion a 104 o blant yn elwa o'r ymweliadau. Hefyd, cyflwynodd y swyddog prosiect ddigwyddiad teuluol ar y cyd â Phlant Dewi ar gyfer dros 80 o deuluoedd ynglŷn â chwarae a dysgu yn yr awyr agored. Roedd pawb a gymerodd ran yn y sesiwn awyr agored wedi mwynhau'n fawr, a dywedodd nifer ohonynt bod y sesiwn wedi ysbrydoli arweinwyr i ddefnyddio'r offer sydd ganddynt eisoes ac i wneud defnydd o'r manau gwyrdd sydd o fewn pellter cerdded.

Enw'r Prosiect: **Gwylt am Goetiroedd**

Crynodeb o'r Prosiect

Cymru yw un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop, ac mae llai na hanner ei choetiroedd yn cynnwys coed llydanddail brodorol. Nod y prosiect hwn oedd codi £10,000 i blannu 1,000 o goed ychwanegol ar draws Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro tra'n codi ymwybyddiaeth o werth y cynefinoedd hyn. Mae coed yn fodd i roi cartref, bwyd, diogelwch a chysylltiadau ar gyfer y bywyd gwylt sydd o'n cwrdd ac yn chwarae rhan hanfodol mewn gwrthbwysio allyriadau carbon a chefnogi'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Ar ôl rhagori ar y targed drwy godi £20,000, plannwyd dros 6,000 o goed mewn naw safle gwahanol a ddewiswyd yn ofalus.

Mae'r coed a blannwyd wedi creu gwrychoedd newydd sy'n helpu i gysylltu nifer o safleoedd gerllaw, sydd o fudd i rywogaethau prin sydd angen ardal fwy o goetir a gwrychoedd nag oedd ar gael yn flaenorol.

Mae'r coed yn gynefinoedd cyswllt ac yn lwybrau, cysgod a chynhaliadau i fywyd gwylt, ac yn diogelu'r pridd, yn glanhau'r aer ac yn amsugno allyriadau carbon.



Enw'r Prosiect: Gweithredu dros Natur

Crynodeb o'r Prosiect

Cafodd y cynllun grant bach cyntaf ar gyfer ein cymunedau Gweithredu dros Natur ei lansio fis Mai 2021. Roedd y cynllun yn gwahodd grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol i wneud cais am brosiectau fyddai'n cefnogi bioamrywiaeth, yn cyflawni ar faterion cadwraeth neu newid hinsawdd, neu'n addysgu eraill ar y pynciau hynny. Cawsom ein syfrdanu gan y diddordeb a'r brwdfrydedd dros y gweithgaredd hwn.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

- Derbyniodd cyfanswm o 12 o safleoedd cymunedol arian Gweithredu dros Natur i gefnogi gwelliannau i fioamrywiaeth.
- Mae 10 grŵp cymunedol sy'n cynnwys plant ac oedolion wedi cymryd rhan mewn camau gweithredu ar gadwraeth.
- Mae 2 ardal gymunedol yn cael eu clirio o sbwriel yn rheolaidd.
- Roedd disgyblion ysgol Harri Tudur wedi dysgu sgiliau garddio yn ogystal â dysgu am gadwraeth a bywyd gwyllt lleol.
- Roedd y prosiectau yn cynnwys creu dolydd blodau gwyllt a gerddi gloynnod byw, creu cynefinoedd, cefnogi bioamrywiaeth, clirio pyllau cymunedol, BioBlitz bach, plannu coed a phlanhigion sy'n gyfeillgar i bryfed peillio, a phlannu synhwyraidd mewn llefydd chwarae cymunedol a chaeau chwarae.

Enw'r Prosiect: Sioe Deithiol Darganfod y Traeth

Crynodeb o'r Prosiect

Roedd y Sioe Deithiol Darganfod y Traeth yn golygu bod presenoldeb symudol ar draethau a safleoedd arfordirol eraill o amgylch y Parc Cenedlaethol, oedd yn rhoi gwybodaeth a gweithgareddau i ymwelwyr i'w helpu i wneud y gorau o'u hymweliad.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu talu am offer megis pecynnau pyllau glan môr a chanllawiau adnabod bywyd gwyllt i helpu teuluoedd i ddysgu mwy am amgylchedd y traeth. Roedd y prosiect Darganfod y Traeth yn gymorth i ymwelwyr ar y glannau gael profiad cyfoethog o'r Parc Cenedlaethol ac i ddysgu mwy am yr arfordir, darganfod rhai o'i gyfrinachau cudd a dod o hyd i ffyrdd o helpu i ofalu am ein glannau. Roedd y prosiect hefyd yn annog pobl i arsylwi bywyd gwyllt ac yn dangos ffyrdd iddynt gofnodi'r hyn a welwyd ganddynt.

Roedd y Parcmyn Haf wedi ymgysylltu â 5,231 o bobl yn ystod y tymor o fis Mai i fis Hydref.





Enw'r Prosiect: **Creu Mwy o Ddolydd**

Crynodeb o'r Prosiect

Yn y DU, rydym wedi colli 95% a mwy o'n dolydd blodau gwyllt yn y 75 mlynedd diwethaf, sy'n golygu bod llai o leoedd arbennig i flodau, gwenyn a mathau eraill o fywyd gwyllt dyfu a ffynnu. Ein nod ni oedd helpu i newid hyn cyn ei bod hi'n rhy hwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal yr ymgyrch hon i'n galluogi i ddiogelu, adfer a chreu dolydd newydd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Yn ystod 2021, roedd cyllid Creu Mwy o Ddolydd wedi galluogi 13 o wahanol safleoedd dolydd, sef cyfanswm o 132 hectar o ddolydd, i gael eu hadfer neu eu creu. Yn ogystal â'r 13 safle, mae 2 ysgol wedi derbyn planhigion plwg i wneud eu dolydd yn fwy amrywiol wrth ddysgu am ddolydd a phryfed peillio. Prynwyd offer hefyd i sicrhau cynaliadwyedd y prosiect. Bydd y canlyniadau dros amser yn cynnwys adfer a diogelu rhywogaethau sydd dan fygythiad, rhwydweithiau integredig fydd yn fwy abl i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, a mwy o ymwybyddiaeth gyda mwy o bobl yn cyfrannu at gadwraeth rhywogaethau.

"Mae'r arian y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i godi ar gyfer dolydd wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi ein galluogi i fanteisio ar y diddordeb cynyddol mewn dolydd a chreu dolydd o fewn y Parc. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar am eich cefnogaeth barhaus. Diolch."- Sarah Mellor, Swyddog Bioamrywiaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Enw'r Prosiect: **Gwreiddiau**

Crynodeb o'r Prosiect

Mae'r fenter addysg 'Gwreiddiau' - sy'n cael ei rhedeg mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyda chymorth ariannol LNG De Hook - yn bartneriaeth addysg sydd â'r nod o helpu plant i archwilio'r amgylchedd naturiol, y cynnyrch a'r rhwydweithiau bwyd yn Sir Benfro drwy ddarparu sesiynau awyr agored deniadol i gannoedd o blant lleol.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Mae'r ddwy flynedd diwethaf o'r prosiect wedi gweld plant o 6 ysgol iau yn ardal Aberdaugleddau yn archwilio cynnyrch naturiol a chadwyni bwyd yng nghymunedau amaethyddol, arfordirol a gwledig y sir. O beillio, maethynnau pridd a rheoli dolydd, i'r modd y mae bwyd yn chwarae rhan bwysig yn yr economi leol a'n bywydau teuluol, mae plant wedi cysylltu â'r amgylchedd yn ogystal â'r busnesau a'r cymunedau lleol.



Enw'r Prosiect: Ysgolion Awyr Agored

Crynodeb o'r Prosiect

Yn ganolog i waith Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, rydym yn parhau i gefnogi rhwydwaith Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, gan gefnogi mwy o blant yn Sir Benfro i elwa ar gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

- Roedd y prosiect wedi cyflwyno 6 digwyddiad hyfforddi athrawon ar gyfer 160 o athrawon, gan gwmpasu pynciau megis 'gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored' a choetiroedd. Cyflwynwyd hyfforddiant hefyd i 14 o benaethiaid, lle amlygwyd gwerth yr awyr agored i'w dysgwyr.
- Cefnogwyd 18 ysgol i ddatblygu tiroedd eu hysgol fel adnodd dysgu.
- Ymwelwyd â 15 ysgol arall, a darparwyd cyfoeth o adnoddau iddynt i gefnogi eu dysgu yn yr awyr agored.
- Mae'r prosiect wedi gweithio'n uniongyrchol gyda 500 a mwy o ddisgyblion yn y flwyddyn ddiwethaf er bod llawer mwy wedi elwa o'r prosiect yn dilyn hyfforddiant athrawon. Mae'r gwaith a wnaed drwy'r prosiect hwn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd lleol wedi elwa o'r prosiect, gan helpu i wella mynediad i fannau awyr agored a darparu adnoddau dysgu o ansawdd uchel ar draws ein partneriaeth.



Enw'r Prosiect: Pobl, Llwybrau a Pheillwyr

Crynodeb o'r Prosiect

Gan ganolbwyntio ar ran o goridor arfordirol Sir Benfro, nod y prosiect hwn oedd newid y ffordd y mae Llwybr yr Arfordir yn cael ei reoli - gan osod gwella bioamrywiaeth wrth galon y gwaith o gynnal a chadw Llwybr yr Arfordir er mwyn galluogi cysylltiadau rhwng rhywogaethau, cefnogi mynediad, a phori ar y glannau.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Fel rhan o'r prosiect, mae Llwybr yr Arfordir wedi'i arolygu i glustnodi ardaloedd y gellir eu gwella i roi gwell cyfleoedd cynefin i bryfed peillio. Mae cyfanswm o 65 o ymyriadau sydd o fudd i bryfed peillio wedi'u clustnodi a'u gweithredu ar hyd Llwybr yr Arfordir a reolir. Ymhlith yr ymyriadau hyn mae'r canlynol:

- Mae'r coridor arfordirol a'r llwybr wedi'u lledu - mae 200m a mwy o goridorau prysgwydd wedi'u clirio sydd wedi caniatáu i blanhigion llai dyfu a ffynnu, ac yn ei dro, mae'r amrywiaeth cynyddol hwn o rywogaethau planhigion wedi bod o fudd i amrywiaeth o bryfed.
- Mae banciau gwenyn wedi'u creu a thir wedi'i glirio i ddarparu safleoedd nythu ar gyfer gwahanol gacwn a gwenyn unigol.
- Mae bryniau morgrug wedi'u diogelu ar hyd Llwybr yr Arfordir - mae bryniau morgrug yn creu micro-hinsodau ar raddfa fach sy'n caniatáu amrywiaeth ehangach o laswelltau, perlysiâu a phlanhigion blodeuol eraill i ffynnu arnynt.



Diolchiadau personol i'n Cyllidwyr 2021/22

Hoffem ddiolch i bob un o'n cefnogwyr unigol sydd wedi cyfrannu i ni dros y flwyddyn. Ni allem wneud yr hyn a wnawn, hebdoch chi.

Cwmnïau sydd wedi ein cefnogi:

Arnold Clark

Edward Perkins

Awdurdod Porthladd
Aberdaugleddau

Sefydliad Ocado

Persimmon

Plexus

LNG De Hook

Gŵyl Fawr yr Encil

Yr unigolion yr hoffem ddiolch yn arbennig iddynt:

David Leyshon

Duncan Fitzwilliams

Glen Peters, Western Solar

Heather Stevens

Jane Heard

Kyle Rushton McGregor

Ymddiriedolaethau a Sefydliadau:

Ymddiriedolaeth Elusennol Banister

Ymddiriedolaeth Big Give

CLA Charitable Trust

Sefydliad Cymunedol Cymru

Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Treftadaeth 15
Munud

Ariannu Lleuedd Lleol ar gyfer Natur drwy
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Ymddiriedolaeth Cynnal Bywyd Gwylt Martin
Wills

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y
Mileniwm

Adferiad Gwyrdd y Dreftadaeth Genedlaethol

Y Loteri Genedlaethol

Cymdogol

Ymddiriedolaeth Oakdale

Loteri Gymunedol Cod Post

Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru

Ymddiriedolaeth Sackler

Sefydliad Waterloo



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn garedig iawn yn cynnal ein costau gweithredu tan 2023 sy'n golygu y bydd pob rhodd yn helpu prosiectau y mae mawr eu hangen ar draws y Parc Cenedlaethol.

GYDA'N GILYDD RYDYM YN GWNEUD GWAHANIAETH



Cyfrannwch heddiw i Weithredu dros Natur, gan ein helpu i warchod ein Parc Cenedlaethol ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Gallwch gyfrannu naill ai drwy ddefnyddio'r cod QR isod, anfon sic e i'r cyfeiriad post isod neu anfon neges destun drwy ddefnyddio'r wybodaeth isod.
<https://pembrokeshirecoast.enthuse.com/donate#!/>

Tecstiwrch **PEMBSOAST** i **70450** i roi £10 i Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Bydd negeseuon testun yn costio swm y rhodd ynghyd ag un neges cyfradd rhwydwaith safonol, a byddwch yn dewis clywed mwy gennym ni. Os dymunwch gyfrannu ond nad ydych yn dymuno clywed mwy gennym, tecstiwrch PEMBSOASTNOINFO.

Gorllewin Freshwater
Clawr cefn: Penberri

YMDDIRIEDOLAETH
ARFORDIR PENFRO



PEMBROKESHIRE COAST
CHARITABLE TRUST

CYSYLLTWCH Â NI

support@pembrokeshirecoast.wales

www.ymddiriedolaetharfordirpenfro.cymru

01646 624808

Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro SA72 6DY



Registered with
FUNDRAISING
REGULATOR

Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
Rhif Elusen Gofrestredig 1179281

